O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011"). Mae Rheoliadau 2011 yn rheoleiddio trosglwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud â pherfformiad addysgol disgyblion o benaethiaid i gyrff llywodraethu ysgolion, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru.

Mae rheoliad 2(1) o Reoliadau 2011 yn diffinio "asesiadau statudol" i gynnwys y trefniadau asesu a wneir gan Weinidogion Cymru—

(a) yng Ngorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015,

(b) yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013 ("y profion darllen a rhifedd"), ac

(c) mewn gorchymyn a wneir o dan adran 108(3)(c) o Ddeddf Addysg 2002.

Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r pennaeth ddarparu'r wybodaeth a nodir yn Atodlen 2 gan gynnwys canlyniadau'r asesiadau statudol i'r corff llywodraethu. Mae rheoliad 6 o Reoliadau 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu'r wybodaeth a nodir yn Atodlen 2 gan gynnwys yr asesiadau statudol i Weinidogion Cymru.

Diwygiodd Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) (Diwygio) 2018 Reoliadau 2011 fel bod disgybl yn gallu sefyll fersiwn ar-lein o'r profion darllen a rhifedd o 1 Medi 2018. Caiff y fersiwn ar-lein

o’r asesiadau darllen a rhifedd ei marcio’n awtomatig gan feddalwedd gyfrifiadurol a chaiff y canlyniadau eu darparu’n awtomatig i’r ysgol a Gweinidogion Cymru gan feddalwedd gyfrifiadurol.

Mae’r Rheoliadau hyn yn rhoi Atodlen 2 newydd yn Rheoliadau 2011 fel bod canlyniadau’r fersiwn ar-lein o’r profion darllen a rhifedd yn cael eu heithrio o’r wybodaeth am asesiadau statudol y mae rhaid i’r corff llywodraethu ei hanfon i’r awdurdod lleol. Felly, ni fydd yr awdurdod lleol yn cael canlyniadau’r fersiwn ar-lein o’r profion darllen a rhifedd mwyach. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod lleol yn parhau i gael canlyniadau’r profion darllen a rhifedd ar gyfer y disgyblion hynny sy’n sefyll y profion darllen a rhifedd ar ffurf papur tan ddiwedd y flwyddyn ysgol 2019/20 ac ar ôl hynny bydd y profion darllen a rhifedd ar ffurf papur yn peidio â chael eu defnyddio.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2020

*Gwnaed* *2020*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *2020*

*Yn dod i rym* *2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau yn adrannau 29(3)(**1**), 408(1)(**2**) a 537A(1), (2) a (4)(**3**) o Ddeddf Addysg 1996, ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**4**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 408(**5**) o Ddeddf Addysg 1996, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny yr oedd ymgynghori â hwy yn ymddangos yn ddymunol i Weinidogion Cymru.

(**1**) 1996 p. 56. Diwygiwyd adran 29(3) gan Atodlen 30 a pharagraff 67 o Atodlen 31 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31). Diwygiwyd pennawd adran 29 ac is-adrannau (1), (3) a (5) gan O.S. 2010/1158.

(**2**) Diwygiwyd adran 408(1) gan baragraff 30(a) o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p. 44), paragraff 106(a) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, paragraff 46(1) a (2) o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p. 32), paragraffau 9, 11(1) a (2) o Atodlen 12 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), paragraffau 5 a 7 o Atodlen 8 i Ddeddf Addysg 2011 (p. 21), paragraff 1(1) a (2)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (dccc 5) a chan O.S. 2010/1158.

(**3**) Mewnosodwyd adran 537A o Ddeddf Addysg 1996 gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997, fe'i hamnewidiwyd gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1158.

(**4**) Rhoddwyd y swyddogaethau yn Neddf Addysg 1996 i'r Ysgrifennydd Gwladol ac fe'u trosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [     ] 2020.

**Diwygio**

**2.** Yn lle Atodlen 2 i Reoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011(**1**) rhodder—

## "ATODLEN 2

Rheoliadau 4, 5 a 6

## Darparu Gwybodaeth i Awdurdodau Lleol: Canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnodau Allweddol

**1.** Mewn cysylltiad â phob disgybl cofrestredig yn y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol dau a chyfnod allweddol tri, canlyniadau asesiadau statudol y disgybl.

**2.** Pan na fo rhai neu'r cyfan o'r canlyniadau a nodir ym mharagraff 1 ar gael—

(a) a gafodd y disgybl ei esemptio rhag yr asesiadau statudol o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002; neu

(b) a yw canlyniadau asesiadau statudol y disgybl heb fod ar gael am resymau ac eithrio esemptio'r disgybl o dan adran 113 neu 114 o Ddeddf 2002.

**3.** At ddibenion rheoliadau 5 a 6, ni chaiff yr wybodaeth a ddarperir yn unol â pharagraffau 1 a 2 gynnwys canlyniadau disgyblion sy'n sefyll y fersiwn ar-lein o Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013(**2**)."

*Enw*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

---

(**1**) O.S. 2011/1963 (Cy. 217), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/437 (Cy. 53), O.S. 2016/236 (Cy. 88) ac O.S. 2016/837 (Cy. 211).

(**2**) O.S. 2013/433 (Cy. 51), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/811 (Cy. 163).